

Y CRISTINGL YNG NGŴYL FAIR Y CANHWYLLAU

CROESO A CHYFLWYNIAD

Arweinydd:

Naill ai:

Croeso i'n gwasanaeth. Heddiw, dathlwn ŵyl Cyflwyniad ein Harglwydd yn y Deml yn Jerwsalem. Yn ôl cyfraith Iddewig hynafol, roedd yn rhaid i'r fam ymweld â'r deml 40 diwrnod ar ôl genedigaeth ei mab cyntaf i gael ei phuro ac i gyflwyno'r plentyn i'r Arglwydd.

Fodd bynnag, cafodd baban Mair ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r rhan fwyaf o fabanod eraill. Cafodd yr addewid ei wireddu oherwydd hwn oedd y Baban Iesu, Crist, y Gwaredwr, y Meseia. Cafodd ei gydnabod felly gan yr hen broffwyd Simon ac Anna. Roeddent yn ymwybodol mai goleuni oedd y baban hwn, i'w ddatgelu i bob cenedl. Felly, mae rhan bwysig gan oleuni i'w chwarae yn y gwasanaeth heddiw wrth i ni ddod at ddiwedd tymor y Nadolig a goleuadau torch yr Adfent, goleuadau addurniadol y goeden a chanhwyllau niferus dathliad yr Enedigaeth. Dyma pam y gelwir y diwrnod yn Ŵyl Fair y Canhwyllau hefyd, dathliad o oleuni Crist yn y byd.

Neu:

Annwyl gyfeillion: deugain o ddiwrnodau yn ôl gwnaethom ddathlu genedigaeth Iesu Grist ein Harglwydd. Nawr, cofiwn y diwrnod y cafodd ei gyflwyno yn y Deml, pan gafodd ei gynnig i'r Tad a'i ddangos i'w bobl. Fel arwydd o'i ddyfodiad a'i bresenoldeb yn ein mysg, cafodd ei fam ei phuro a bellach awn ni i gael ein puro ganddo ef. Yn eu henaint, gwnaeth Simon ac Anna ei gydnabod fel eu Harglwydd, yn yr un modd ag y canwn ni heddiw am ei ogo-niant. Heddiw, dathlwn orfoledd ei ddyfodiad a'i graffter beirniadol, gan edrych yn ôl ar ddiwrnod ei enedigaeth.

CYNNAU CANNWYLL*

(*Gall y gannwyll hon fod yn Gannwyll Crist yng nghanol torch yr Adfent, Cristingl, y gannwyll Basgaid neu unrhyw gannwyll fawr arall)

Arweinydd: Dygodd Crist ni o dywyllwch;

Pawb: I fyw yn ei gariad rhyfeddol Ef .

Emyn

CYFFES

Dad, a ddywedodd yn y dechreuad, 'Bydded goleuni',
Cadw ni yng ngoleuni Crist i lewyrchu yn dy fyd,
i bawb weld yr hyn a wnawn yn dy enw
a'th ogoneddu di. Drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Caiff y Cristingl eu dosbarthu a chaiff cylch o olau ei ffurfio o amgylch yr Eglwys. Caiff y goleuni ei bylu. Dywedwn -

Arweinydd: Goleuni Crist

Pawb: Diolch fo i Dduw

Caiff emyn neu gân adnabyddus ei chanu, megis "I orwedd mewn preseb". Caiff y canhwyllau eu diffodd yn ofalus.

Emyn

Y FENDITH

Boed i lawenydd yr Angylion, cariad Mair,
ffyddlondeb Joseff, cyffro'r Bugail,
defosiwn y Doethion ac
amynedd Simeon ac Anna, fod yn rhoddion Duw i chi:
A bendith Duw Hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fyddo yn eich plith ac aros gyda chi am byth.
Amen.

Arweinydd: Ewch yn nhangnefedd Crist;

Pawb: Diolch fo i Dduw.

Gellir cyflwyno'r gyffes â geiriau addas:

Dywed Iesu, 'Myfi yw goleuni'r byd. Pwy bynnag a'm canlyn i, ni chaiff rodio mewn tywyllwch ond a feddianna oleuni'r bywyd'. Felly, bydded i ni ddwyn ein camweddau gerbron goleuni Iesu ac ymddiheuro iddo:

Dduw Dad, gresynwn am y pethau a wnawn, a ddywedwn, ac a fed-dyliwn, sy'n dy dristáu di; gresynwn hefyd am i ni fethu meddwl am eraill o'n blaenau ni'n hunain. Maddau i ni a chynorthwya ni i'th garu di a phobl eraill, Amen

Boed i Dduw a garodd y byd gymaint fel y bu iddo anfon Ei Fab i fod yn Waredwr i ni,- faddau'n pechodau a'n sancteiddio i'w wasanaethu Ef yn y byd hwn, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

DIOLCHGARWCH

Gogoniant i Grist, Fab Mair; wedi dy eni'n blentyn, 'rwynt yn un â ni:

Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.

Gogoniant i Grist, Fab Dafydd; wedi dy eni i lywodraethu, 'rwynt yn teyrnasu yn ein calonnau:

Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.

Gogoniant i Grist, Dab Dyn; wedi dy eni i achub, ti yw goleuni'r byd:

Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.

Emyn

GWEINIDOGAETH Y GAIR

Casgliad

Hollalluog a bythfywiol Dduw, sydd â'th fawrhydi yn fantell amdanat, Ti y bu i'th Fab y dydd hwn/yr adeg hon, gael ei gyflwyno yn y Deml yn sylwedd ein cnawd: caniatâ i ninnau gael ein cyflwyno i ti â chalonnau pur a glân, trwy dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr a thros byth. Amen.

Darlleniadau posibl:

Eseia, pennod 9, adnodau 2 a 6

Efengyl Sant Ioan, pennod 1, adnodau 1-5

Efengyl Sant Luc, pennod 2, adnodau 22-40

ANERCHIAD / CYFARCHIAD

Emyn y casgliad ar gyfer gwaith Plant Dewi (*Defnyddiwch yr Amlenni Cymorth Rhodd os ydych yn drethdalwr*)

Emyn yr Offrwm: Fel y bu i Joseff a Mair ddwyn rhoddion i'r Deml i ddiolch am enedigaeth eu mab, felly yr offrymwn ninnau arwyddion o'n diolch. Derbyn hwy er mwyn y Plentyn a gyflwynwyd y dydd hwn, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

GWEDDĪAU

Iesu, yr oedd Mair yn fam iddo:

gweddiwn dros(*teuluoedd*)

Arglwydd Iesu, **gwrando ein gweddi.**

Iesu, a gariwyd ym mreichiau ei Fam:

gweddiwn dros.....(*y digartref, ffoaduriaid*)

Arglwydd Iesu, **gwrando ein gweddi.**

Iesu, a rannod y stabl â'r anifeiliaid:

gweddiwn dros.....(*y cread*)

Arglwydd Iesu, **gwrando ein gweddi.**

Iesu, a addolwyd gan Simeon ac Anna:

gweddiwn dros.....(*cenhedloedd, hiliau, pobloedd*)

Arglwydd Iesu, **gwrando ein gweddi.**

Iesu, goleuni'r byd:

gweddiwn dros.....(*y rheini mewn angen arbennig*)

Arglwydd Iesu, **gwrando ein gweddi.**

Boed i Dduw ein Tad roi i ni oleuni Crist er mwyn i ni lewyrchu â'u gariad, bod yn barod i wasanaethu, ac yn frwd i ddilyn yn ei gamau, yr un sy'n wir oleuni a ffynhonnell bywyd. Amen.'

Gweddi Plant Dewi (*yr adroddwn gyda'n gilydd*)

Dad nefol, gweddiwn dros waith Plant Dewi. Helpa ni oll i gydweithio i ddangos cariad dy Fab, ein Ceidwad Iesu Grist, mewn adegau o orfoledd, angen a galar. Yn bennaf oll, helpa ni i ddwyn teuluoedd a phobl ifanc yn nes at ei gilydd fel y gallant deimlo dy gariad a pharchu ei gilydd. Drwy Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

I'w ddilyn gan Weddi'r Arglwydd: Ein Tad

Y CRISTINGL

Cynnau a Chyflwyno'r Cristingl -